

## ADRODDIAD BLYNYDDOL - 2015/16

<b>Cynghorydd: Annwen Hughes</b>		<b>Grŵp: Plaid Cymru</b>			
<b>Ward: Llanbedr a Llanfair</b>					
<b>Bwriad yr adroddiad blynyddol:</b> Pwrpas yr Adroddiad Blynyddol yw i gynorthwyo etholwyr i wybod mwy am waith a gweithgareddau eu haelodau etholedig yn ystod y flwyddyn.					
<b>Rol a chyfrifoldebau:</b> Gweithio yn y gymuned a chyd-weithio gyda'r Cynghorau Cymuned Lleol i wneud yn siwr fod buddiannau'r cymunedau yn cael eu diogelu. Aelod o'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol (hyd at 11.06.2015) Pwyllgor Craffu Cymunedau Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol Is-bwyllgor Ymchwiliad Craffu Gorfodaeth Stryd					
<b>Gweithgareddau etholaethol:</b> <b>Pentref Llanbedr</b> Parhau i sicrhau fod GanBwyll yn dal i ymweld a phentref Llanbedr a Llanfair yn gyson er mwyn gwneud yn siwr bod goryrru yn cael ei fonitro. Yn dilyn pryderon gan drigolion Pensarn (pentrefan rhwng Llanbedr a Llanfair) bod goryrru yn cael ei wneud ar hyd yr A496 a elwir yn Sarn Hir, wedi trefnu bod mesurydd traffic yn cael ei osod ar y ffordd i fonitro cyflymder y traffic. O ganlyniad i hyn wedi cynnal cyfarfodydd gyda rhai o'r trigolion lleol a hefyd ymweld a rhai o'r trigolion i drafod eu pryderon. Yn dilyn pryderon o geir yn parcio ger y Gofeb yn mhentref Llanbedr wedi trefnu cael llinellau melyn dwbwl wedi eu gosod ger y safle fel bod rhwystr i hyn rhag digwydd. Yn cerdded o amgylch y pentref yn rheolaidd gan sgwrsio hefo'r pentrefwyr ac etholwyr eraill ynglyn a materion sydd yn eu pryderu.					
<b>Maes Awyr Llanbedr</b> Mae'r datblygiadau yn y safle uchod yn dal i fynd rhagddo a dal i ddisgwyl am y cyhoeddiad ynglyn a yw y safle wedi bod yn llwyddiannus fel safle a fyddai yn addas ar gyfer y porth ofod. Ymgyrchu gyda swyddogion Network Rail yng nghyfarfodydd Pwyllgor Arfordir y Cambrian i gael rhwystrau ar groesfan Talwrn Bach, Llanbedr.					
<b>Ffordd Osgoi</b> Dal mewn trafodaethau gyda YGC ynglŷn â'r ffordd osgoi arfaethedig. Opsiwn terfynol wedi cael ei ddewis a sawl ymgynghoriad cyhoeddus wedi cael eu cynnal yn y neuadd bentref i ddangos yr opsiwn hwn. Wedi helpu y Cyngor Cymuned drefnu cyfarfod cyhoeddus diwedd Gorffennaf 2015 am bod ychydig o'r pentref yn gwrthwynebu cynllun y ffordd osgoi. Rhai yn dal i wrthwynebu y ffordd osgoi arfaethedig.					
<b>Mentrau a gweithgareddau eraill:</b> Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanbedr yn fisol Mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Llanfair yn fisol Aelod o bwyllgor Eisteddfod Arduwy (Trysorydd) Aelod o bwyllgor Cylch Arduwy Apel Meirionnydd CAFC 2016 Mynychu ymgyrch a helpu i godi arian i gael neuadd bentref newydd yn Llanbedr Mynychu ffair haf yr ysgol gynradd yn Llanbedr Mynychu ffair nadolig yr ysgol feithrin yn Llanbedr					
<b>Bu i mi fynychu'r Pwyllgorau canlynol:</b>					
PWYLLGOR	NIFER CYFARFODYDD *	PRESENNOL	AELOD LLEOL / SYLWEDYDD / CRAFFU	YMDDIHEURO	ABSENNOL
Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y	1	1	0	0	0

Cambrian					
Pwyllgor Trwyddedu Canolog	5	4	0	1	0
Is-Bwyllgor Trwyddedu Canolog	3	3	0	0	0
Pwyllgor Craffu Cymunedau	4	4	0	0	0
Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Cymunedau	5	5	0	0	0
Pwyllgor Craffu Corfforaethol	1	1	0	0	0
Cyfarfod Paratoi Pwyllgor Craffu Corfforaethol	2	2	0	0	0
Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd	4	3	0	1	0
Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	4	4	0	1	0
Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyffredinol	3	3	0	0	0
Fforwm Ardal Meirionnydd	5	4	0	1	0
Y Cyngor	6	5	0	1	0

\* NIFER CYFARFODYDD Y PWYLLGOR YN YSTOD 2015/16

Canran Presenoldeb: 90%

**Roeddwn yn absennol o'r Pwyllgorau a nodir uchod oherwydd:**

Ymrwymadau eraill

**Bu i mi gymryd rhan yn y cyfarfodydd, seminarau, ymchwiliadau a gweithdai ychwanegol canlynol:**

Gweithdy blynyddol Pwyllgor Craffu Cymunedau - 16/4/15  
 Gweithdy blynyddol Pwyllgor Craffu Corfforaethol - 23/4/15  
 Gweithdai toriadau Cyngor Gwynedd - 3/6/15, 15/6/15, 23/6/15, 24/6/15, 6/7/15, 15/1/16 a 26/1/16  
 Sesiwn Briffo A.D.Y ar gyfer Aelodau lleol - 24/9/15  
 Cynhadledd Arwain yn Ddiogel - 15/10/15  
 Cyfarfod gyda Tim Gorfodaeth Stryd yn Bala - 11/3/16

**Bu i mi gynrychioli Cyngor Gwynedd ar y cyrff allanol neu'r cyfarfodydd canlynol:**

Ysgol Gynradd Llanbedr (Llywodraethwr)	Grwp Rhandeiliad Gwella Mynediad i Faes Awyr Llanbedr
Ysgol Ardudwy (Llywodraethwr)	Cyfarfodydd Cynhadledd Rheilffordd Arfordir y Cambrian
Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig	Agoriad Swyddogol Bont Briwet (13.7.15)
Panel Mabwysiadu Gwynedd a Mon	Arddangosfa gan QinetiQ ar Faes Awyr Llanbedr (10.3.15)
Grwp Ffocws Lein y Cambrian (30.09.15)	

**Bu i mi fynychu'r sesiynau hyfforddiant Dysgu a Datblygu canlynol:**

	Dyddiad
Sesiwn Peilot I-pads	26/6/15
Deddf Gwasnaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru 2014)	7/7/15
Ail Ran Sesiwn Peilot i-pads	8/9/15
Sgiliau Cadeirio Effeithiol	23/9/15
Cynhadledd Arwain yn Ddiogel	15/10/15
Modern Gov	25/11/15

Yr Her Gofal - Paratoi am y Ddeddf	21/1/16
Hyfforddiant Gwrandawiadau Trwyddedu	27/1/16
Sut i Graffu yn Effeithiol	5/2/16
Cod Ymddygiad	23/3/16
Sgiliau Cadeirio Effeithiol	20/4/16
Hyfforddiant I-Pad Uwch	28/4/16
Dementia	9/5/16

**Cyfanswm nifer o oriau: 36**